**EITEM AR YR AGENDA: 8**

**PANEL GWEITHREDOL**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**21ain Medi 2006**

# PENNU ARBEDION EFFEITHLONRWYDD O FEWN CYLLIDEB 2006/07 I YMOROL AM GOSTAU CYMHATHU O RENGOEDD I ROLAU

**Adroddiad gan Dawn Docx,**
**Prif Swyddog Cynorthwyol (Cyllid a Chaffael)**

## Diben yr Adroddiad

**1.** Rhoi'r diweddaraf i'r Aelodau ynghylch cymhathu o rengoedd i rolau, a'r costau posib.

## Cyflwyniad

**2.** Wrth osod cyllideb 2006/07 gorchmynnodd yr Aelodau y dylai unrhyw gynnydd mewn gwariant oherwydd y symud o rengoedd i rolau ddod o'r arbedion effeithlonrwydd, a hynny fel rhan o'r agenda foderneiddio ac yn codi o'r Cynllun Integredig Rheoli Risg (IRMP).

**3.** Mae'r papur hwn yn rhoi'r hynt hyd yn hyn mewn perthynas â'r broses gymhathu, ac yn esbonio pam nad oes, ar hyn o bryd mor gynnar yn y broses, fodd cyfrifo'n fanwl unrhyw gostau uwch a phennu'r arbedion fydd eu hangen i ymorol am y gost.

## Cefndir

**4.** Yn Nhachwedd 2003 cafodd yr holl swyddi ar yr ochr weithredol eu cymhathu o rengoedd i rolau, a hynny at ddiben cyflogau yn unig. O'r herwydd, cafodd y broses ar gyfer symud yn barhaol o rengoedd i rolau ei ffurfio gan grŵp Gorchwyl a Gorffen o'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru ac Undeb yr FBU.

**5.** Yng nghyfarfod Grŵp Datblygu Staff a Threfniadaethol Cymdeithas y Prif Swyddogion Tân ar Fehefin 2il 2006 cymeradwywyd defnyddio'r broses, a chadarnhawyd y penderfyniad yng nghyfarfod Grŵp Strategol y System Integredig Datblygiad Personol ar Fehefin 13eg 2006. Cytunwyd ar ddyddiad cychwyn yn y cyfarfod hefyd, sef Gorffennaf 1af 2006.

**6.** Bydd y strategaeth ar gyfer gweithredu yn cymryd cryn amser yn y Gogledd oherwydd mae'n rhaid rhoi gwybod i'r holl weithwyr am ganlyniad y broses gymhathu mewn perthynas â hwy, a'u hawl i apelio.

Bydd yr apeliadau'n dod gerbron pennaeth yr adran ynghyd â Phrif Swyddog a Phrif Swyddog o Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru.

**7.** Fe allai'r broses yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru barhau tan ddiwedd Ionawr, ac oherwydd nifer y newidion, ni fydd yn bosib cyfrifo'r costau'n fanwl gywir tan hynny, ond yr arwyddion cynnar yw y bydd hyn tua £45,000 ar gyfer cyflogau sylfaenol yn unig.

**Cefndir** *(parhad)*

**8.** Gellir cwrdd â'r goblygiadau i'r gyllideb yn 2006/07 o'r tanwariannau a reolir, a bydd unrhyw dâl wedi ei ôl-ddyddio yn cael ei dalu o'r ddarpariaeth ar gyfer rhengoedd i rolau. O 2007/08 ymlaen y bydd raid dod o hyd i arbedion effeithlonrwydd i ariannu'r costau rheolaidd hyn. Unwaith y bydd modd gwneud cyfrifiad mwy cywir, bydd yn dod gerbron yr Aelodau i gael eu barn ynghylch y ffordd i gwrdd â'r gost ychwanegol.

**Argymhelliad**

**9.** Bod yr Aelodau'n nodi cynnwys yr adroddiad.